

PWYLLGOR PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO  
DYDDIAD 12 HYDREF 2023  
TEITL CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL  
PWRPAS YR ADRODDIAD AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD  
HYD AT 30 MEDI 2023  
AWDUR LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO  
GWEITHREDIAD DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNWYS A  
CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U  
CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd 30 Medi 2023.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2023:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol (2023/24)	8

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2023, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2022-2023	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 1
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2022-2023	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 2
Datganiad Cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig 2020-2021	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 3
Cronfa'r Degwm	Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Uchel	Atodiad 4
Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	Economi a Chymuned	Amgueddfeydd ac Oriolau	Uchel	Atodiad 5
Grant Cymorth Tai	Tai ac Eiddo	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Digonol	Atodiad 6
Cyflogau Athrawon	Cyllid	Cyflogau a Phensiynau	Digonol	Atodiad 7
Dilyniant Diogelwch Tacsï	Amgylchedd	Trwyddedu	Digonol	Atodiad 8

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

<b>LEFEL SICRWYDD</b>	<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	<b>DIM SICRWYDD</b>	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

### **3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 30 Medi 2023:

- Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (*Addysg*)
- Rheolaeth Categori Corfforaethol (*Corfforaethol*)
- Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio (*Corfforaethol*)
- Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau (*Cyllid*)
- Cartref Plas Maesincla (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cartref Plas Ogwen (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cartref Cefn Rodyn (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Dilyniant - Cartrefi Preswyl (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Gwastraff Gardd (*Amgylchedd*)
- Gwastraff Swmpus (*Amgylchedd*)
- Dilyniant – Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio (*Amgylchedd*)
- Clefyd Gwywiad Yr Onnen (Ash Dieback) (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)
- Incwm Masnachol (*Priffyrdd, Peirianeg a YGC*)
- Unedau Diwydiannol (*Tai ac Eiddo*)

### **4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Medi 2023, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU****1. Cefndir**

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu derbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad a sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Cefnogir y ffigwr asedau sefydlog ar y datganiad cyfrifyddu gyda cofrestr asedau.

**DATGANIAD CYFRIFYDDU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD  
(CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

**1. Cefndir**

1.1 Roedd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyd-bwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r cyd-bwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol. Daeth y Cyd-Bwyllgor i ben ar y 31/03/23.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol o'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod sampl o daliadau wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu derbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau staffio yma yn briodol yn y datganiad. Sicrhawyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth priodol.

**DATGANIAD CYFRIFYDDU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD****1. Cefndir**

1.1 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforaethol rhanbarthol sydd â phwerau a dyletswyddau sy'n weddol debyg i bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol. Mae ganddynt strwythurau llywodraethu a gweinyddol tebyg hefyd, ond mae ganddynt lefel o ddisgresiwn o ran eu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Mae'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am waith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd y rhanbarth.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb datganiad cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig rhanbarth y gogledd ar gyfer y flwyddyn 2022/23, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Corfforedig rhanbarth y Gogledd ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

**CRONFA'R DEGWM****1. Cefndir**

Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu'r llog yn flynyddol ar ffurf grantiau i elusennau cofrestredig yng Ngwynedd er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau. Mae modd i sefydliadau megis Eisteddfodau Lleol, gweithgareddau celfyddydol, mudiadau addysg, hamdden a chwaraeon, cadwriaethol ac elusennau sy'n cefnogi pobl wael neu bobl anabl geisio am y grant. Mae'n bosib gwneud cais am unrhyw swm, ond bydd grantiau unigol yn dueddol i fod rhwng £100 a £3,000.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal gwiriad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm am y flwyddyn ariannol 2022/23, yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau, mae'n rhaid cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon os yw incwm blynyddol y gronfa dros £25,000. Buddsoddwyd arian y gronfa er mwyn denu llog, ac felly rhagorwyd y trothwy incwm ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

4.2 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiad o gyfrifon Cronfa'r Degwm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau.

**CYFRIFON AMGUEDDFA LLOYD GEORGE****1. Cefndir**

Mae Amgueddfa Lloyd George a cartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog y DU. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000 drwy gyfraniad Cyngor Gwynedd, rhaid cyflwyno cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau am 2022-23, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2022/23, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfrifyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

## GRANT CYMORTH TAI

### 1. Cefndir

1.1 Rhaglen grant ymyrraeth cynnar yw'r Grant Cymorth Tai, a sefydlwyd yn 2019 i helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu unigolion a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety, a'i gadw. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Dyrannwyd hyd at £6.8m o grant i Wynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2022/23.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio Grant Cymorth Tai ar gyfer 2022/23, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

<u>Risk Level</u>	<u>Number</u>
<b>VERY HIGH</b>	0
<b>HIGH</b>	0
<b>MEDIUM</b>	1
<b>LOW</b>	0

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau ariannol ar dystysgrif archwilio y Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau.

- 5.2 Yn sgil yr amserlen heriol i gyflwyno datganiad o wariant alldro terfynol y grant i Lywodraeth Cymru, buasai'n fuddiol i brosesu trosglwyddiadau mewnol am wasanaethau darparir gan y Cyngor yn gynt, neu yn gyfnodol drwy'r flwyddyn. Bydd hyn yn gymorth i fonitro ac adrodd ar wariant yn ystod, ac ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, caiff symiau sylweddol eu trosglwyddo ar ddiwedd y flwyddyn, a hynny ar ôl adrodd ar y gwariant alldro terfynol i Lywodraeth Cymru. Ar adegau, mae'r hyn adroddwyd ar y datganiad o wariant alldro terfynol yn wahanol i'r hyn trosglwyddwyd yn y cyfrifyfr ariannol.
- 5.3 Mae'r tystysgrif archwilio yn gofyn i'r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig. Gan fod y grant yn ariannu taliadau i amryw o ddarparwyr mewnol ac allanol, mae'r Gwasanaeth wedi ail-ddechrau cynnal ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb y darpariaeth a'r taliadau a wneir, yn dilyn cyfnod o brinder staffio.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sefydlu trefn o brosesu trosglwyddiadau mewnol am wasanaethau darparir gan y Cyngor yn gyfnodol yn ystod y flwyddyn, boed yn fisol neu chwarterol.**

## CYFLOGAU ATHRAWON

### 1. Cefndir

1.1 Mae oddeutu 1,420 o athrawon ar gyflogres y Cyngor. Yn y flwyddyn ariannol 2022/23, talwyd dros oddeutu £49 miliwn o gostau cyflog (heb 'on-costs') i athrawon yn unig.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i weinyddu cyflogau athrawon, gan sicrhau bod taliadau cywir yn cael eu gweithredu yn amserol, gan gynnwys cyfraniadau pensiynau a threth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o gyflogau athrawon ynghyd â athrawon cyflenwi gan gynnwys rhai sydd newydd dechrau, unrhyw addasiadau a chyflogau athrawon sydd wedi gadael er mwyn sicrhau cyflogau cywir ac amserol, yn ogystal â phrydlondeb cyfarwyddiadau gan yr ysgolion i newidiadau sy'n effeithio cyflogau.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 O'r sampl o gyflogau athrawon a archwiliwyd, darganfuwyd bod trefniadau ffurfiol mewn lle ar gyfer sefydlu, addasu a therfynu cyflogau athrawon.

5.2 O'r sampl o staff dros dro a ddetholwyd h.y. staff sydd wedi eu penodi ar 'gyfnod penodol', gwelwyd bod 28% angen sylw, gyda 14% wedi mynd dros y cyfnod dros dro. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Uned Cyflogau a Chontractau Ysgolion bod y gwasanaeth yn derbyn adroddiad misol i wirio cytundebau sydd wedi mynd dros y cyfnod dros dro. Derbyniwyd yr adroddiad mis Gorffennaf 2022 a gwelwyd bod 713 ar yr adroddiad gyda

288 dros 2 flynedd neu fwy ar gytundeb dros dro. Eglurwyd bod gwiriadau yn cael eu cynnal gyda penaethiaid ysgolion a caiff y cytundebau eu hadolygu/diweddaru gyda eglurhad y penaethiaid. Er hynny, golygai bod rhai staff gyda cytundeb dros dro hir dymor h.y. dros 2 flynedd gyda hawliau ychwanegol ond o bosib yn anymwybodol ac yn colli allan ar hawliau.

- 5.3 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu data cywir a chyflawn am aelodau cyfredol ynghyd a'r sawl sydd wedi gadael cyflogaeth ysgolion Cyngor Gwynedd, yn fisol i'r Gwasanaeth Pensiynau Athrawon (GPA). O Ebrill 2023 ymlaen, gofynnwyd y GPA i gynghorau gyflwyno data mewn ffurf newydd gan ddisodli'r drefn bresennol 'Monthly Data Collection' (MDC) a chyflwyno trefn Cysoni Cyfraniadau Misol 'Monthly Contributions Reconciliation' (MCR). Mae'r broses newydd yn cynnwys gwybodaeth am hyd y gwasanaeth, cyflogau a gwybodaeth am gyfraniadau i'r GPA yn hytrach na chasglu data ar ddadansoddiad o gyfraniadau misol a data aelodaeth, ac yn cysoni'r rhain i mewn i un. Derbyniwyd eglurhad gan y Rheolwr Cyflogau bod y broses newydd yn gymhleth oherwydd nid yw'r system Cyflogau yn gallu echdynnu'r data a ofynnir am heb adnoddau ychwanegol ar gyfer cyflwyno'r data a'u dilysu. Yn ogystal, nid yw'r Rheolwr yn fodlon creu newidiadau anwrthdroadwy i'r system ar hyn o bryd rhag i'r GPA gyflwyno cyfarwyddiadau newydd a gwahanol o ganlyniad i'r ffaith bod llawer o gynghorau yn parhau i gael problemau gyda'r proses newydd.
- 5.4 Gan fod y data bellach ar sail MCR, gofynnir i gynghorau weithredu unrhyw addasiadau newydd mewn cyflogau athrawon e.e. pan mae codiadau cyflog, bydd rhaid eu hôl dyddio ac ail gyfrifo a chyflwyno gwybodaeth am hyd y gwasanaeth, cyflogau a gwybodaeth am gyfraniadau eraill ar gyfer pob mis mae'r newid yn effeithio, a hynny i adlewyrchu fel petai'r taliad wedi digwydd ar yr amser cywir. Mynegodd y Rheolwr Cyflogau bod hyn angen adnodd ychwanegol ar gyfer gweithredu, yn enwedig os derbynnir llawer o geisiadau anrhagweledig gan yr ysgolion a'r angen i ôl ddyddio'r cyflogau o fis i fis. Petai Cyflogau mewn sefyllfa lle mae'r ysgolion yn cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn ac yn amserol, yna nid oes unrhyw broblem gweithredu MCR, ond mae'r maint gwaith sydd yn gysylltiedig ag ail-gyfrifo cyfraniadau am fisoedd hanesyddol yn sylweddol ac yn gymhleth.
- 5.5 Adroddodd y Rheolwr Cyflogau (Awst 2023) bod y Cyngor yn parhau i gyflwyno gwybodaeth i GPA trwy ddefnyddio 'MDC' nes bydd yn derbyn gohebiaeth bellach ganddynt ynghlŷn â newid i 'MCR'.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cyflwyno gwybodaeth drwy MCR i Wasanaethau Pensiynau Athrawon pan ddaw cyfarwyddiadau bellach sydd yn caniatáu i'r gwasanaeth Cyflogau i'w wneud.**
- **Tynnu sylw penaethiaid (trwy gyfarfod neu ebost) at eu cyfrifoldebau ac adolygu wedyn pa mor effeithiol oedd hynny, ac os ydy'r sefyllfa wedi gwella, neu ddim.**

## DILYNIANT DIOGELWCH TACSIS

### 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Diogelwch Tacsis fel rhan o gynllun 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer trwyddedu tacsis i sicrhau diogelwch defnyddwyr. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

### 2. Bwriad a Chwmpas y Dilyniant

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r ffaeleddau amlygwyd, ac wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau llwyddiannus ers yr archwiliad gwreiddiol er mwyn sicrhau fod y dystiolaeth sy'n bresennol yn gywir a chyfredol, gyda thaliad wedi ei dderbyn ar bob achlysur.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad dilyniant fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae'r risgiau archwilio fel a ganlyn:

Lefel Risg	Nifer
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

### 5. Prif Darganfyddiadau

5.1 Allan o'r 3 gweithrediad a gytnwyd o'r archwiliad gwreiddiol ym mis Hydref 2022 (2 â sgôr risg 12 ac un yn 8), gwelwyd bod 2 (gyda sgôr risg o 12) wedi'u gweithredu ac adroddir y casgliadau isod. Mae 1 (gyda sgôr risg o 8) ddim yn weithredol nes Rhagfyr 2023. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig o'r adroddiad dilyniant.

5.2 Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Amgylchedd) bod y Gwasanaeth wedi

darganfod eu bod wedi derbyn nifer o geisiadau trwyddedu a dogfennau/tystiolaeth i flwch e-bost personol swyddog, yn hytrach 'na flwch generig y gwasanaeth. Yn dilyn ymddiswyddiad y swyddog, nid oedd bosib mynd drwy'r e-byst ond llwyddwyd yn raddol i ddod o hyd i'r holl ceisiadau a gyflwynwyd drwy e-bost yn uniongyrchol i'r swyddog drwy ymgeiswyr am drwyddedau newydd ac/neu adnewyddu yn cysylltu gyda'r gwasanaeth i holi am ddiweddariad ar geisiadau. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gallu cywiro cofnodion fel yr oedd trwyddedau yn dod i fyny i'w hadnewyddu, yn ogystal â rhedeg adroddiadau er mwyn gwirio cofnodion prosesu trwyddedau'r swyddog ers 2020.

- 5.3 Ers archwiliad Hydref 2022, cadarnhawyd bod staff newydd wedi'u penodi ac wedi derbyn hyfforddiant dwys, ac wedi gweithio'n agos iawn gyda swyddog profiadol gyda chanllawiau prosesu newydd wedi'u creu ar gyfer swyddogion newydd i'r gwasanaeth. Mae'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar brosesu a chofnodi trwyddedau, gyda gwiriadau ar hap gan y Rheolwr yn dangos fod y cofnodion yn fwy cywir ac yn gyflawn. Mae cyfarwyddyd hefyd wedi ei rannu i ddefnyddio'r blwch e-byst generig ar bob achlysur.
- 5.4 O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod y holl dystiolaeth yn ddilys ar yr adeg a chaniatawyd y drwydded. Cyfeiriwyd at sylw Swyddog Drwyddedu eithriadau oedd angen meddiannu tystiolaeth gyfredol oedd wedi dyddio yng nghanol cyfnod y drwydded. Eglurodd y Rheolwr 'mae dyddiad adnewyddiad yn aml yn disgyn yn 'due' yn ystod cyfnod gweithredol y drwydded'. Gyda'r system erbyn hyn yn galluogi i redeg adroddiadau i wirio trwyddedau lle mae dogfennau pwysig wedi dod i ben, mae'r gwasanaeth yn ceisio rhedeg adroddiadau rheolaidd i geisio goresgyn y broblem.
- 5.5 Cadarnhawyd o dan drefn 'notifiable occupation disclosure' mae'r gwasanaeth yn cael gwybod gan yr Heddlu os yw unigolyn yn cael ei ymchwilio am drosedd perthnasol. Eglurwyd nad yw'r gwasanaeth angen disgwyl am ddedfryd Llys cyn gweithredu i atal trwydded taci unigolyn sydd o dan ymchwiliad am droseddau perthnasol, ond gall atal yn syth ar sail y gall y person fod yn beryglus i ddiogelwch y cyhoedd.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Rhedeg adroddiadau i wirio trwyddedau lle mae dogfennau pwysig wedi dod i ben.**
- **Rheolwr i wirio cofnodion ar hap yn reolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.**
- **Parhau i lunio polisi newydd ynghyd â darparu'r hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau cysondeb yn y drefn prosesu trwyddedau yrru ar draws Gwynedd.**